# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 46
15/02/21

## Iesu a'r wraig o Samaria

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.

Paid â phoeni os na wnei di bopeth.
Gwna yr hyn yr wyt yn ei ffansïo a chael hwyl!




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Jennifer Roberts - Eglwys Bresbyteraidd Cymru gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Mair Roberts, Kathryn Williams, Rachel Hughes a Gwyn Rhydderch



An English version is also available


Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd. Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org

# Stori



## Fersiwn Beibl.net



Gadawodd Iesu Jwdea a mynd yn ôl i Galilea. Ar y ffordd roedd rhaid iddo basio drwy Samaria. Daeth i bentref o'r enw Sychar, yn ymyl y darn tir enwog roedd Jacob wedi'i roi i'w fab Joseff ers talwm. A dyna lle roedd ffynnon Jacob. Roedd Iesu wedi blino'n lân, ac eisteddodd i orffwys wrth y ffynnon. Roedd hi tua chanol dydd. Daeth gwraig yno i godi dŵr. Samariad oedd y wraig, a gofynnodd Iesu iddi, “Ga i ddiod gen ti?” (Roedd ei ddisgyblion wedi mynd i'r dre i brynu bwyd.)
“Iddew wyt ti,” meddai'r wraig, “Sut alli di ofyn i mi am ddiod? Dw i'n wraig o Samaria.”
(Y rheswm pam wnaeth hi ymateb fel yna oedd fod Iddewon fel arfer yn gwrthod defnyddio'r un llestri â'r Samariaid.)
Atebodd Iesu, “Taset ti ond yn gwybod beth sydd gan Dduw i'w roi i ti, a phwy ydw i sy'n gofyn i ti am ddiod! Ti fyddai'n gofyn wedyn, a byddwn i'n rhoi dŵr bywiol i ti.”
“Syr,” meddai'r wraig, “Ble mae'r 'dŵr bywiol' yma sydd gen ti? Does gen ti ddim bwced i godi dŵr ac mae'r pydew yn ddwfn. Wyt ti'n meddwl dy fod di'n fwy na'n tad ni, Jacob? Jacob roddodd y pydew i ni. Buodd e'n yfed y dŵr yma, a'i feibion hefyd a'i anifeiliaid.” Atebodd Iesu, “Bydd syched eto ar bawb sy'n yfed y dŵr yma, ond fydd byth dim syched ar y rhai sy'n yfed y dŵr dw i'n ei roi. Yn wir, bydd y dŵr dw i'n ei roi yn troi'n ffynnon o ddŵr y tu mewn iddyn nhw, fel ffrwd yn llifo i fywyd tragwyddol.” Meddai'r wraig wrtho, “Syr, rho beth o'r dŵr hwnnw i mi! Fydd dim syched arna i wedyn, a fydd dim rhaid i mi ddal ati i ddod yma i nôl dŵr.” Yna dwedodd Iesu wrthi, “Dos i nôl dy ŵr, a thyrd yn ôl yma wedyn.”
“Does gen i ddim gŵr,” meddai'r wraig.



“Ti'n iawn!” meddai Iesu wrthi, “Does gen ti ddim gŵr. Y gwir ydy dy fod wedi cael pump o wŷr, a ti ddim yn briod i'r dyn sy'n byw gyda ti bellach. Ti wedi dweud y gwir.”
“Dw i'n gweld dy fod ti'n broffwyd syr,” meddai'r wraig, “Dw i'n gwybod fod y Meseia (sy'n golygu ‘Yr un wedi'i eneinio'n frenin’) yn dod. Pan ddaw e, bydd yn esbonio popeth i ni.”
“Fi ydy e,” meddai Iesu wrthi, “yr un sy'n siarad â ti.”
Dyna pryd daeth ei ddisgyblion yn ôl. Roedden nhw'n rhyfeddu ei weld yn siarad â gwraig, ond wnaethon nhw ddim gofyn iddi hi, “Beth wyt ti eisiau?”, nac i Iesu, “Pam wyt ti'n siarad gyda hi?” Dyma'r wraig yn gadael ei hystên ddŵr, a mynd yn ôl i'r pentref. Dwedodd wrth y bobl yno, “Dewch i weld dyn oedd yn gwybod popeth amdana i. Allai e fod y Meseia tybed?” Felly dyma'r bobl yn mynd allan o'r pentref i gyfarfod Iesu.

*Ioan 4:3-19, 25-30 Beibl.net*

## Fersiwn syml

Roedd Iesu a'i ffrindiau wedi cerdded yn bell ac wedi cyrraedd pentref o'r enw Sychar ac aeth ei ffrindiau i brynu bwyd i ginio ond eisteddodd ef wrth ffynnon ddŵr i orffwys. Daeth gwraig o Samaria at y ffynnon i nôl dŵr. Gofynnodd Iesu i'r wraig, “Ga i ddiod o ddŵr gen ti?” Roedd y wraig wedi synnu a dywedodd hi, “Sut allet ti ofyn i mi am ddiod. Dydy pobl



o dy wlad di ddim yn siarad gyda ni fel arfer.” Atebodd Iesu, “Dwyt ti ddim yn fy nabod I neu mi fuaset ti'n gofyn i mi am help. Mae gennyf i rhywbeth mwy gwerthfawr na dŵr i ti.” Dechreuodd Iesu a'r wraig siarad. Roedd Iesu yn gwybod y cyfan am y wraig. “Rwyt ti'n rhyfeddol!” meddai'r wraig wrtho. Aeth i ddweud wrth ei phobl am beth oedd Iesu wedi ei ddweud wrthi. Daeth llawer o bobl i gredu ynddo y diwrnod hwnnw. Arhosodd Iesu yno am ychydig ddyddiau cyn mynd yn ei flaen i Galilea.

# Cwestiynau i'w trafod

Ar ôl darllen y stori gyda'ch gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:



1. Beth wyt ti'n ei wneud sy'n codi syched arnat ti? Beth wyt ti'n ei wneud i dorri dy syched?
2. Beth oedd y wraig yn y stori yn gorfod ei wneud i dorri ei syched?
3. Sut oedd y wraig yn gwybod fod Iesu'n arbennig?
4. Beth wnaeth y wraig ar ôl deall pwy oedd Iesu?

# Gweddi fer


O Dduw, diolch i Ti dy fod Ti'n fy ngharu i fel ag yr ydw i. Diolch i Ti nad oes yna ddim byd rydw i'n ei wneud sy'n gwneud i Ti fy ngharu i fwy. Diolch i Ti nad oes yna ddim byd rydw i'n ei wneud sy'n gwneud i Ti fy ngharu fi llai. Rwyt Ti mor garedig! Amen.




# Stori i'w lliwio

# Y wraig wrth y ffynnon


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther





Roedd Iesu wedi blino. Eisteddodd wrth ffynnon i orffwys tra'r aeth ei ddisgyblion i'r dref i brynu bwyd. Roedden nhw wedi cerdded yn bell iawn ac roedd arnynt eisiau bwyd.



Daeth gwraig o dref Samaria i nôl dŵr o'r ffynnon. Synnodd pan ofynnodd Iesu iddi hi am ddiod. Fel arfer doedd pobl ddim yn gyfeillgar tuag at unrhyw un o Samaria.




Dywedodd Iesu wrthi, " Pe byddet ti'n gwybod pwy ydw i, byddet ti'n gofyn am ddŵr sydd yn dy wneud yn lân ar y tu mewn." "Ond does gen ti ddim bwced na rhaff ac mae'r ffynnon yn ddwfn,"atebodd hi.




Roedd Iesu'n gwybod am bopeth roedd hi erioed wedi eu gwneud. " Gyda dŵr o'r ffynnon byddi di'n sychedig eto yn fuan iawn," meddai Iesu. " Rydw i'n siarad am Ysbryd Duw sy'n dy wneud yn newydd ac yn lân ar y tu mewn."



"Os gweli di'n dda rho'r dŵr yma i mi," meddai hi. Dywedodd Iesu wrthi fod Duw eisiau i bawb, ble bynnag maen nhw'n byw, ei adnabod ef a'i garu â'u holl galon.



"Rydw i'n gwybod dy fod yn ddyn Duw," meddai hi. "Ond mae Duw wedi addo anfon Achubwr un dydd." Atebodd Iesu, " Fi ydy'r Un sydd wedi ei addo." Credodd y wraig hyn am Iesu.




Gadawodd ei jar wrth y ffynnon a rhedodd adref. "Dewch i weld y dyn sy'n gwybod popeth! Fo ydy'r Mab mae Duw wedi ei addo," gwaeddodd. Credodd pobl o Samaria yn Iesu hefyd.



Pan ddaeth disgyblion Iesu yn ôl dywedodd Iesu nad oedd yn llwglyd bellach. Oedd rhywun wedi bwydo Iesu? Ond dywedodd Iesu," Mae dweud wrth bobl am Dduw yn gwneud i mi deimlo'n dda ac yn fodlon ar y tu mewn."

# Dolenni




Fideo o'r stori
https://youtu.be/-OEBsQerNUk




Fideo o gân yr wythnos
https://youtu.be/qdAsARn58-Y





Cartŵn o'r stori (Saesneg)
https://www.youtube.com/watch?v=kM6KzGeBXZ8

# Gweddi Greadigol

## Dŵr sy'n gorlifo

*(I'w wneud dan arolygaeth oedolyn)*



Rho gwpan yn y sinc ac agora'r tap dŵr oer.
Bydd y dŵr yn llenwi'r gwpan ac yn gorlifo os na fyddi'n cau'r tap.
Mae Iesu fel y tap sydd ar agor. Pan fyddwn ni'n gofyn iddo ein llenwi fe fydd yn gwneud hynny'n barhaus â dŵr bywiol, sef yr Ysbryd Glân. Y cyfan sydd raid i ni ei wneud ydy gofyn iddo.

Wrth i'r dŵr orlifo dros ymyl y gwpan, gweddia drwy ofyn i Iesu dy lenwi di â'r Ysbryd Glân.

---

## Duw'n fy adnabod


Roedd Iesu'n gwybod popeth am y wraig oedd wrth y ffynnon.
Mae Duw'n gwybod popeth amdanom ni hefyd, ac mae'n ein caru ni.

**Byddi angen:**
- Papur gwyn
- Creon gwyn
- Paent dyfrlliw
- Brwsh paent

**Beth i'w wneud:**
- Defnyddia'r creon gwyn i ysgrifennu hyn ar y papur: 'Mae Duw yn gwybod popeth amdana i'
- Defnyddia'r brwsh i beintio stribedi gwahanol liw o'r paent dros yr ysgrifen.
- Wrth i ti wneud hyn dyweda 'diolch' wrth Dduw am dy garu fel ag yr wyt ti.




# Posau




Edrycha’n ofalus ar y lluniau. Pa un wyt ti'n meddwl ydy'r lleiaf?
Ar ôl i ti ddewis, defnyddia bren mesur i ddarganfod yr ateb annisgwyl!

---




Fedri di ddod o hyd i eiriau'r adnod wedi eu cuddio yn wal y ffynnon? Ysgrifenna'r adnod isod.

# Rysáit

## Crempog



**Cynhwysion:**

- 100 gram o flawd plaen
- 2 wy mawr
- 300ml o lefrith
- 1 llwy fwrdd o olew blodyn haul neu olew llysiau ac ychydig yn ychwaneg ar gyfer ffrio’r crempogau
- Sudd lemon a siwgr caster (dewisol)

**Dull:**

- Rho’r blawd plaen, yr wyau, olew a phinsiad o halen mewn bowlen neu jwg mawr yna chwisgia’r cyfan nes y bydd gennyt gytew.
- Yna bydd angen i ti adael i’r gymysgedd sefyll am 30 munud.
- Rho badell ffrio dros wres cymedrol ac ira hi â ‘kitchen roll’ olewllyd.
- Pan fydd y badell ffrio’n boeth, coginia dy grempogau am funud bob ochr nes eu bod yn euraidd. Gelli di eu cadw’n gynnes mewn popty ar wres isel tra’r wyt ti’n coginio rhagor.
- Gelli weini’r crempogau â sudd lemon a siwgr caster neu dy hoff lenwad. Mae saws siocled yn flasus ac yn dda.



# Crefft

## Ffynnon Ddŵr



**Byddi angen:**

Twb creision bychan (neu unrhyw dwb bychan arall),papur A4 gwyn, cerdyn A4 coch a gwyn, tyllwr, siswrn, pren mesur, gwelltyn sy'n plygu, edau,glud, glud PVA, pensel, pin ffelt ddu, creonau du neu lwyd






**1.** Mesura uchder y twb creision. Tynna lun petryal maint y twb ar bapur A4 a thorra fo allan.



**2.** Tynna lun siapiau i edrych fel wal gerrig dros y petryal i gyd a lliwia fo.




**3.** Gorchuddia'r twb creision â glud ac arno gluda'r 'wal gerrig'.




**4.** Gosoda'r cerdyn gwyn o dy flaen a mesura 2 fodfedd o'r gwaelod a thorra stribed i ffwrdd.



**5.** Plyga'r stribed cardfwrdd yn ei hanner.



**6.** Plyga'r stribed yn ei hanner eto a'i dorri.



**7.** Gluda'r cardiau plygedig yn ei gilydd.



**8.** Gwna dwll ymhob stribed ac yna torra dameidiau oddi ar dop y corneli.






**9.** Defnyddia lud PVA i lynu'r ddau stribed cardfwrdd un bob ochr i'r twb.



**10.** Rho welltyn drwy'r ddau dwll a thorra tua modfedd oddi ar un pen iddo.



**11.** I wneud y bwced torra ddau stribed o gardfwrdd coch. Mesura un yn 10cmx3cm a'r llall yn 10cmx1cm.



**12.** Rholia'r stribed cerdyn 10cm x 3cm a gluda'r ymylon yn ei gilydd.



**13.** Defnyddia'r stribed 10cmx1cm i wneud yr ddolen. Gluda hi'n sownd â'r glud PVA.




**14.** Gosoda'r bwced ar ddarn o gerdyn a gwneud amlinelliad o'i waelod ac yna ei dorri allan.



**15.** Rho ddigonedd o lud PVA ar y cylch a'i ludo i waelod y bwced.



**16.** Torra ddarn o edau a'i glymu i'r gwelltyn ble mae'r plyg.



**17.** Lapia'r edau o gwmpas y gwelltyn nes y cyrhaeddi ei ganol.



**18.** Clyma'r bwced i waelod yr edau.



**19.** I symud y bwced i fyny ac i lawr tro'r gwelltyn un ffordd neu'r llall.

# Chwilair


| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| J | U | R | I | A | S | I | A | R | A | D | G |
| A | P | W | Y | F | E | D | FF | I | D | O | C |
| C | O | B | D | S | T | U | Y | D | F | F | S |
| O | H | O | U | LL | TH | W | N | Y | LL | R | N |
| B | I | B | P | R | E | N | N | W | I | A | O |
| D | G | W | I | R | P | N | O | Y | G | F | TH |
| A | M | C | N | I | O | R | N | B | W | Y | A |
| D | I | E | U | DD | P | FF | G | R | Y | C | I |
| E | D | D | S | FF | N | F | W | D | B | I | D |
| CH | | D | U | E | W | D | E | Y | O | A | R |
| Y | G | W | R | A | I | G | DD | RH | D | Ŵ | R |
| S | A | M | A | R | I | A | C | W | E | DD | I |

BWCED
BYWYD
CODI
CYFARFOD
DIM
DIOD
DUW
DWEUD
DWFN
DŴR
FFYNNON
GOFYNNODD
GWRAIG
GWYBOD
IESU
IDDEW
JACOB
MESEIA
POPETH
PROFFWYD
PWY
RHOI
SAMARIA
SIARAD
SYCHED
YFED

# Sialensau

## Lego

Gwna fodel o stori'r wraig wrth y ffynnon gyda Iesu.



## Dŵr glân

Dydy 1 o bob 10 person yn y byd ddim yn gallu cael dŵr glân. Mae elusen 'Wateraid' yn gweithio'n galed i helpu newid hyn.

Beth am i ti wneud rhywbeth i godi arian i elusen 'Wateraid'? Efallai y buaset yn gallu golchi'r car  a gofyn am gyfraniad gan dy deulu. Am fwy o fanylion dilyna'r ddolen hon: https://www.wateraid.org/uk/

## Golchi

Meddylia am sut mae Iesu'n ein golchi ni'n lân.
Pa bethau fedri di eu golchi?
e.e. y car, y sinc, y bath.







Mae bwcedi wedi eu cuddio trwy'r pecyn hwn. Sawl un fedri di ddod o hyd iddo?



# Gemau

## Symud dŵr



**Byddi angen:**
- Dwy gwpan – un yn llawn dŵr a'r llall yn wag
- Gwelltyn ar gyfer pob chwaraewr
- Amserydd

**Sut i Chwarae**
- Rho'r cwpanau wrth ymyl ei gilydd ar hambwrdd.
- Sugna ddŵr i mewn i'r gwelltyn. Yna dalia'r dŵr yn y gwelltyn drwy osod dy fys dros ei dop. Coda'r gwelltyn o'r gwpan.
- Caiff y chwaraewyr 60 eiliad i weld faint o ddŵr fedr pob un ohonyn nhw ei drosglwyddo o'r gwpan sy'n llawn i'r gwpan wag.
- Meddylia am y dŵr yn cael ei drosglwyddo o un person i'r llall fel unigolion yn trosglwyddo a rhannu cariad Iesu ag eraill.

## Seiloffon dŵr



**Byddi angen:**
- 8 potel lefrith neu jar neu wydr
- Dŵr
- Lliw bwyd neu baent dyfrlliw
- Pensil


**Beth i'w wneud:**
- Llenwa'r poteli gyda gwahanol faint o ddŵr i greu nodau cerddorol gwahanol.
- Defnyddia'r bensil i daro'r poteli i glywed y nodyn.
- Ychwanega ychydig o liw bwyd neu baent dyfrlliw gwahanol i'r dŵr.
- Rwyt ti wedi creu seiloffon dŵr!

Rwan, gelli chwarae cân ar dy seiloffon dŵr.

# Canu



Mae Iesu'n barod i fynd allan o'i ffordd
i'n tynnu ni ato'i hun.
Mae'n dal i alw allan yn uchel ac yn glir
i roi ail gyfle i bob un syn.
Nid oes ots beth mae eraill yn eu dweud;
nid oes ots beth 'dyn ni wedi'i wneud.
Er ei fod yn gwybod ein bod ni'n wan,
mae'n maddau pan fyddwn ni'n crwydro i bob man;
mae'n ein derbyn yn ôl ac mae'n ein gwneud ni'n lân.
Mae'n ein croesawu ni – bob un.



*Hawlfraint 2021 Andy Hughes*

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/qdAsARn58-Y

Os hoffech chi gerddoriaeth (hen nodiant) cysylltwch ag Andy Hughes - ahughes@saintygymuned.org